OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 736 (Cy.88)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 26(1) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a Chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

### Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992

**2.** Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**3**) (lle y mae Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) wedi ei nodi), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru, wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1947 p.41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 iddi. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ("Firemen's Pension Scheme") ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy.257). Drwy erthygl 4 o'r offeryn hwnnw newidiwyd enw'r Cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru). Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan amryfal Ddeddfau ond nid yw'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cofnod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1992/129; a ddiwygiwyd gan 1997/2309 a 2851, a 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912 a 2918 (Cy.257), 2006/1672 (Cy.160), 2007/1074 (Cy.112), 2009/1226 (Cy.109), 2010/234 a 2012/974 (Cy.128).

**3.** Yn lle'r Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 rhodder y Tabl canlynol—

| *"Pensionable Pay* | *Contribution rate from 1 April 2013* |
|---|---|
| Up to and including £15,000 | 11.0% |
| More than £15,000 and up to and including £21,000 | 11.9% |
| More than £21,000 and up to and including £30,000 | 12.9% |
| More than £30,000 and up to and including £40,000 | 13.2% |
| More than £40,000 and up to and including £50,000 | 13.5% |
| More than £50,000 and up to and including £60,000 | 13.7% |
| More than £60,000 and up to and including £100,000 | 14.1% |
| More than £100,000 and up to and including £120,000 | 14.5% |
| More than £120,000 | 15.0%." |

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129)) ("y Cynllun") fel y mae'n cael effaith yng Nghymru.

Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer cyfraddau gwahanol o gyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan aelodau'r Cynllun sy'n cynyddu yn ôl swm y cyflog pensiynadwy y mae'r aelod yn ei dderbyn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau yn y Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 i'r Cynllun.

Yn ychwanegol, mae band newydd o gyflog pensiynadwy wedi ei greu fel y bydd y diffoddwyr tân hynny sy'n ennill mwy na £15,000 a hyd at £21,000, a chan gynnwys y swm hwnnw, yn talu cyfradd is na'r rheini sy'n ennill mwy na £21,000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Tân a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ neu drwy ffonio 0300 062 8254.